Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Cynllun Gweithredu Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig

29 Medi 2014

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais a ddaeth i law ar 18 Medi.

*Mae angen copi o'r Cynllun Gweithredu* Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig *arnaf.*

Gelwir corff corfforaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Gomisiwn y Cynulliad ('y Comisiwn'). Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn sicrhau bod y Comisiwn yn gyfrifol am ddarparu eiddo, staff a gwasanaethau i gynorthwyo Aelodau'r Cynulliad.

Mae'r Cynulliad yn ymrwymedig i ddenu, recriwtio a chadw pobl dalentog sy'n dod o gefndiroedd amrywiol. Rydym yn gwerthfawrogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynwysoldeb yn ein gweithlu.

Nod y Cynllun Gweithredu Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yw gwella'r broses o recriwtio, cadw a datblygu staff sy'n bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn y Comisiwn. O ganlyniad i nodi'r angen i wella'r gynrychiolaeth o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yng Nghomisiwn y Cynulliad, penodwyd ein Cydgysylltydd Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig ym mis Mehefin 2014. Rôl y cydgysylltydd yw gwireddu'r Cynllun Gweithredu a sicrhau ei barhâd hirdymor. Nod y prosiect yw gwella'r gynrychiolaeth o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yng ngweithlu Comisiwn y Cynulliad drwy greu partneriaethau sy'n hyrwyddo cyflogi pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig gydag asiantaethau a sefydliadau eraill.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 20 89 8635
E-bost / Email: Buddug.Saer@cymru.gov.uk
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Byddwn yn / Rydym wedi:

- Mabwysiadu strategaethau cyfathrebu i ymgysylltu â chymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig drwy fynd i ddigwyddiadau cymunedol i wella'r ddealltwriaeth o'r Cynulliad ac annog recriwtio i'r Cynulliad.
- Cynnig cymorth ac arweiniad ar ddiwrnodau ymgyfarwyddo â recriwtio i ddarpar ymgeiswyr o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.
- Sicrhau'r defnydd o gyfryngau amrywiol mewn prosesau recriwtio.

Yn fewnol, bydd y prosiect yn cynnig cymorth uniongyrchol, i aelodau presennol o staff ac aelodau newydd o staff sy'n bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, o ran hyfforddiant datblygiad personol, cyfleoedd mentora a hyfforddi yn y Cynulliad.

Mae'r Cynllun Gweithredu a geir yn yr atodiad i'r wybodaeth hon yn darparu rhagor o fanylion a chafodd ei gymeradwyo gan Fwrdd Rheoli Comisiwn y Cynulliad ym mis Hydref 2013.

Ystyriwyd eich cais yn unol â’r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i’r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan: www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhyddid Gwybodaeth a Chymorth Prosiect**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan: www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

# Atodiad

## Cynllun Gweithredu i gefnogi staff presennol sy'n bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a gwella'r gynrychiolaeth ohonynt yng ngweithlu Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Arwain: Swydd Allgymorth ar gyfer Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig**

**A – Cefnogi a datblygu ein gweithlu presennol sy'n bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig**

| Canlyniad dymunol | | Camau gweithredu |
|---|---|---|
| **A1** | Dangos ymrwymiad sefydliadol i gydraddoldeb pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn y gweithle<br><br>**Erbyn diwedd mis Mawrth 2014:**<br><br>Cydgysylltydd mewn swydd | Nodi uwch-noddwr ar gyfer cydraddoldeb o ran pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn y gweithle |
| | | Defnyddio'r swydd allgymorth ar gyfer pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig i gydgysylltu'r gwaith ar ddatblygu'r Cynllun Gweithredu |
| | | Defnyddio dulliau cyfathrebu mewnol i hyrwyddo materion pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a gwaith y Rhwydwaith Staff ar gyfer Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig – gan gynnwys ymrwymiad/neges ar-lein ar y tudalennau recriwtio |
| **A2** | Bod rheolwyr yn ymwybodol o faterion sy'n benodol i staff sy'n bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn y gweithle | Y Rhwydwaith i helpu gyda'r gwaith o ddatblygu taflen ffeithiau ymwybyddiaeth o ddiwylliant i'w dosbarthu i bob aelod o staff |

| Canlyniad dymunol | | Camau gweithredu |
| --- | --- | --- |
| | **Erbyn mis Ebrill 2014:**<br><br>Taflen ffeithiau wedi'i llunio i'w dosbarthu i staff | |
| **A3** | Staff sy'n bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn ymwybodol o gyfleoedd Dysgu a Datblygu (gan gynnwys hyfforddiant ar gyfer dyrchafiadau a phanelau recriwtio) a chynyddu'r defnydd o gyfleoedd o'r fath. Mae Adolygiadau Rheoli Perfformiad a Datblygiad (adolygiadau PMDR) yn ysgogi'r broses hon. | Y Cydgysylltydd Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig i gefnogi'r broses o nodi unrhyw ofynion dysgu a datblygu er mwyn helpu gyda chynnydd (gallai fod yn rhan o ddiwrnodau datblygu trawsrwydwaith) |
| | **Erbyn mis Ebrill 2015:**<br>75% o'r Rhwydwaith Staff ar gyfer Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig wedi trafod anghenion dysgu gyda'r Cydgysylltydd Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a'r tîm Dysgu a Datblygu<br><br>100% o'r holl staff sy'n bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn cael trafodaethau PMDR llawn a rheolaidd ac os bydd angen, cynlluniau gyrfa<br><br>50% o'r Rhwydwaith Staff ar gyfer Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn cael hyfforddiant ar gyfer gwneud cais am swyddi a chyfweliadau<br><br>50% o'r Rhwydwaith Staff ar gyfer Pobl Dduon a Lleiafrifoedd | Defnyddio system TG newydd y tîm Adnoddau Dynol i nodi data ynghylch dysgu a datblygu o fewn y grwpiau cydraddoldeb i weld pwy sy'n manteisio ar gyfleoedd datblygu. Gellid ei defnyddio hefyd i olrhain cynnydd staff sy'n bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig<br><br>Annog cydweithwyr sy'n bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig i eistedd ar banelau recriwtio a rhoi'r sgiliau iddynt allu gwneud hynny |

| Canlyniad dymunol | | Camau gweithredu |
|---|---|---|
| | Ethnig yn cael hyfforddiant recriwtio i eistedd ar banelau cyfweld | |
| **A4** | Staff sy'n bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig gyda mynediad at fentoriaid/hyfforddwyr a modelau rôl a'u bod yn cael budd ohonynt. Cydweithwyr sy'n bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn fentoriaid ac yn hyfforddwyr hyfforddedig.<br><br>**Erbyn mis Ebrill 2015:**<br><br>O leiaf 50% o'r Rhwydwaith Staff ar gyfer Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn cael eu mentora neu eu hyfforddi<br><br>O leiaf ddau aelod o'r Rhwydwaith Staff ar gyfer Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn cael eu hyfforddi fel mentoriaid/hyfforddwyr | Cynnig cyfleoedd mentora a hyfforddi gan gydweithwyr ac uwch-reolwyr, er y byddai hynny'n golygu prinder o fodelau rôl sy'n bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, ond gellid hefyd edrych yn allanol pe byddai angen |
| **A5** | Dull cefnogi ar gyfer staff sy'n bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, yn ogystal â llais ar y cyd gydag amlygrwydd a chyfranogiad cynyddol | Tudalennau'r Rhwydwaith Staff ar gyfer Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn fyw ar y fewnrwyd a phob aelod o staff yn gwybod amdanynt. Y Cydgysylltydd Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig i gefnogi'r |

| Canlyniad dymunol | | Camau gweithredu |
| --- | --- | --- |
| | Y Rhwydwaith Staff ar gyfer Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn cynnal asesiad effaith ar gyfer pob polisi perthnasol | datblygiad parhaus o'r rhwydwaith staff |
| | | Staff sy'n bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu polisïau drwy'r broses o ddadansoddi cydraddoldeb |

**B - Gwella'r gynrychiolaeth o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn y gweithlu**

| Canlyniad dymunol | | Camau gweithredu |
| --- | --- | --- |
| **B1** | Swydd benodol i gydgysylltu'r gwaith o ddatblygu'r cynllun gweithredu hwn<br><br>**Erbyn mis Mawrth 2014:**<br><br>Cydgysylltydd mewn swydd | Rhoi'r adnoddau i'r Cydgysylltydd Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig i weithio ar ddatblygu'r Cynllun Gweithredu neu ystyried secondiad mewnol |
| **B2** | Ystyried Comisiwn y Cynulliad yn gyflogwr o ddewis ar gyfer pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a chynyddu nifer y ceisiadau a geir gan bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn ystod ymgyrchoedd recriwtio mewnol ac allanol | Y Cydgysylltydd Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig i gasglu adborth parhaus gan unigolion a sefydliadau. Atgyfnerthu'r cysylltiadau â sefydliadau a rhwydweithiau cymunedol, ysgolion, colegau a phrifysgolion |

<table>
<tr><th colspan="2">Canlyniad dymunol</th><th>Camau gweithredu</th></tr>
<tr><td rowspan="6"></td><td rowspan="6">Erbyn mis Ionawr 2014:<br><br>Canlyniad Cynllun Prentisiaeth 2014 i lywio'r strategaeth allgymorth ar gyfer y Cynllun nesaf<br><br>Erbyn mis Ebrill 2015:<br><br>Canran y ceisiadau allanol gan bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig i gyfateb i'r ffigur Ardal Teithio i'r Gwaith Caerdydd, neu ragori arno. Ar hyn o bryd y ffigur yw 8.5% [linc yn ôl i'r ffurflen gais i ganfod ble roedd ymgeiswyr wedi gweld yr hysbyseb swydd]<br><br>Nifer y ffurflenni monitro cydraddoldeb (a atodir i ffurflenni cais) na chânt eu llenwi yn 5% (mae'n 9.1% ar hyn o bryd)<br><br>Erbyn mis Mehefin 2014:<br>Nodi'r asiantaethau recriwtio sydd ag amrywiaeth eang o gleientiaid a defnyddio'r wybodaeth hon i hysbysebu swyddi</td><td>Y Cydgysylltydd Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig i gynnal digwyddiadau 'hyfforddi'r hyfforddwr' fel bod sefydliadau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn gwybod sut yr ydym yn recriwtio a pha swyddi sydd ar gael</td></tr>
<tr><td>Cynnal gwaith allgymorth penodol i ddenu amrywiaeth eang o ymgeiswyr ar gyfer y Cynllun Prentisiaeth nesaf</td></tr>
<tr><td>Cysylltu â Thimau Digwyddiadau ac Allgymorth y Cynulliad i hysbysebu swyddi a theithiau'r Cynulliad a chreu/dosbarthu taflenni codi ymwybyddiaeth</td></tr>
<tr><td>Nodi a thargedu ble y dylem hysbysebu ac annog sefydliadau ac unigolion sy'n bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig i gofrestru ar gyfer ffrwd 'swyddi' cyfryngau cymdeithasol er mwyn aildrydar</td></tr>
<tr><td>Datblygu dulliau cyfathrebu i annog ymgeiswyr i gwblhau'r ffurflen monitro cydraddoldeb</td></tr>
<tr><td>Canfod a chofnodi ble y gwelodd bobl yr hysbyseb swydd a mesur unrhyw gynnydd yn nifer y ceisiadau gan bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig</td></tr>
<tr><td>B3</td><td>Bod ein trefniadau recriwtio yn ystyried cydraddoldeb yn llawn, yn gynhwysol ac yn helpu i sicrhau amrywiaeth yn y gweithlu, yn</td><td>Cynnal asesiad effaith o'n polisi a'n trefniadau recriwtio</td></tr>
</table>

| Canlyniad dymunol | | Camau gweithredu |
|---|---|---|
| | arbennig mewn perthynas â'r gynrychiolaeth o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig<br><br>**Erbyn mis Rhagfyr 2014:**<br><br>Dwy sesiwn allgymorth y flwyddyn gydag amrywiaeth eang o sefydliadu cymunedol i godi ymwybyddiaeth a hyrwydo Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel cyflogwr o ddewis | Gwella ein tudalennau recriwtio ar y we i adlewyrchu ein hethos yn well a hyrwyddo'r hyn yr ydym eisoes yn ei wneud: 'amrywiaeth ar waith', proffiliau staff, rhwydweithiau, achrediadau a lluniau amrywiol |
| | | Sicrhau bod y geiriau a'r lluniau a ddefnyddir mewn hysbysebion swyddi yn amrywiol |
| | | Datblygu a dosbarthu taflenni recriwtio hyrwyddol i'r canolfannau a'r sefydliadau cymunedol ar gyfer pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig |
| | | Sicrhau y caiff cymwysterau tramor eu cydnabod |
| | | Sicrhau nad yw trefniadau fetio diogelwch yn gweithredu fel rhwystr |
| | | Holl staff recriwtio'r tîm Adnoddau Dynol i dderbyn hyfforddiant ar ragfarn ddiarwybod |
| | | Pan fo'n bosibl, panelau recriwtio i gynnwys staff sy'n bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig |
| | | Egluro i unrhyw bartneriaid recriwtio ein hethos a'n nodau ar gyfer recriwtio amrywiaeth o bobl ac unrhyw drefniadau gweithredu cadarnhaol |
| | | Cymryd hapsampl o ymarferion recriwtio i sicrhau na cheir rhagfarn ddiarwybod |

| Canlyniad dymunol | | Camau gweithredu |
|---|---|---|
| **B4** | Ymgeiswyr aflwyddiannus yn gwneud cais eto am gyfleoedd yn y dyfodol a byddant wedi cael profiad cadarnhaol o broses recriwtio'r Cynulliad. Y maes yn cynnal ei amrywiaeth | Annog ymgeiswyr aflwyddiannus i gofrestru i gael hysbysebion swyddi (os nad ydynt eisoes wedi gwneud hynny) i weld cyfleoedd yn y dyfodol |
| | | Clywed, cofnodi a hyrwyddo straeon o lwyddiannau pan fo'n briodol ar dudalennau recriwtio ar y we y Cynulliad |
| | | Sicrhau y caiff adborth ei ddarparu mewn ffordd ddefnyddiol |
| **B5** | Denu pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig i'n sefydliad drwy drefniadau recriwtio eraill, h.y. y Cynllun Prentisiaeth, lleoliadau allgymorth ar gyfer pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, profiad gwaith ac ystyried lleoliadau gwaith yn y dyfodol.<br><br>**Erbyn mis Rhagfyr 2014**:<br><br>O leiaf pedwar person ifanc sy'n bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ifanc i gyflawni profiad gwaith yn y Cynulliad bob blwyddyn | Parhau gyda'r lleoliadau gwaith a'r secondiadau mewnol ar gyfer pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, pan fo'r arian ar gael a bod angen gwneud hynny. Gallai'r profiad fod ar gyfer un person am chwe mis, neu dri person am ddeufis |
| | | Digwyddiad diwrnod agored ar gyfer y Cynllun Prentisiaeth nesaf i gyflwyno'r broses recriwtio i bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a sefydliadau eraill sydd â diddordeb |
| | | Dylai profiadau gwaith gynnwys pobl ifanc sy'n bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig o ysgolion ac oedolion sydd am gael profiad gwaith i wella eu CV |

| Canlyniad dymunol | | Camau gweithredu |
|---|---|---|
| **B6** | Gallwn feincnodi â sefydliadau eraill a sicrhau ein harfer gorau o ran mentrau cydraddoldeb hiliol<br><br>**Erbyn mis Gorffennaf 2014:**<br><br>Cyflwyno cynnig i Race for Opportunity Benchmarking | Cynnal dadansoddiad blynyddol ar gyfer Race for Opportunity Benchmarking i weld beth gallai'r achrediad posibl fod |

## C - Sicrhau Parhad y Cynnydd

| Canlyniad dymunol | | Camau gweithredu |
|---|---|---|
| **C1** | Parhau gyda'r cynnydd o ran cyflawni'r amcanion p'un a oes Cydgysylltydd Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig ai peidio<br><br>**Erbyn mis Medi 2014:**<br><br>Cynnwys y gwaith a wneir gan y Cydgysylltydd Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn y strategaeth Adnoddau Dynol | Cynnwys yr amcanion a'r arferion gwaith yng Nghynllun Gwasanaeth yr Adran Adnoddau Dynol ac yn y rolau swyddi. Rhwydwaith staff gweithredol i barhau gyda'r gwaith o hyrwyddo cydraddoldeb pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn y gweithle |